Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1AT

11/11/2024

Annwyl Geraint Davies

**Ymweliad estynedig ACALI:** Hydref 2024

Ar 21 – 23 Hydref 2024, cynhaliodd Richard Thomas AEF a dau gydweithiwr AEF ymweliad estynedig arolygydd cyswllt awdurdod lleol a ganolbwyntiodd ar anghenion dysgu ychwanegol a phresenoldeb.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- gyfarfod â chi fel Cyfarwyddwr Addysg, yr uwch dîm a swyddogion perthnasol
- cyfarfod â'r Prif Swyddog Gweithredol, y cadeirydd craffu a'r aelod arweiniol ar gyfer addysg
- cyfarfod â phenaethiaid ac arweinwyr
- craffu ar ddogfennau

Rydym yn gobeithio y bu'r ymweliad hwn yn fuddiol i chi a'ch tîm gwasanaethau addysg. Ceir crynodeb o'n canfyddiadau isod.

**Maes ffocws 1: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn nodi disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gynnar trwy gydweithio, pontio a gweithio amlasiantaethol**

**Cryfderau**

- Mae gan yr awdurdod lleol ethos cryf o gydweithio. Mae hyn yn cyfrannu at waith y tîm ymroddgar o swyddogion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n cefnogi ysgolion a lleoliadau yn effeithiol. O ganlyniad, caiff anghenion disgyblion ag ADY eu hadnabod mewn modd amserol.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.
Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae prosesau'r awdurdod ar gyfer asesu, cynllunio a monitro yn helpu hwyluso, yn nodi'n amserol a darparu ymyraethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.
- Mae swyddogion ADY yr awdurdod lleol yn darparu ystod eang o gyngor, cymorth ac arweiniad i ysgolion a lleoliadau. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar feithrin capasiti mewn ysgolion a lleoliadau. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys y model amlasiantaethol sefydledig 'Tîm o Amgylch y Lleoliad Cyn Ysgol' (TALICY [TAPS]) a 'Tîm o Amgylch yr Ysgol' (TAY [TAS]) i gefnogi a chynghori ysgolion ar sut i ddiwallu anghenion disgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY. Mae TAPS a TAS yn cynnwys staff o'r tîm ADY, cymorth ymddygiad a seicolegwyr addysg. Mae'r dull yn galluogi nodi a darparu cymorth amserol ar gyfer disgyblion ag ADY posibl. Mae arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r arweiniad pwrpasol a ddarperir gan swyddogion.
- Mae swyddogion wedi hwyluso cyfarfodydd clwstwr gwerthfawr i gefnogi gwaith cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (Cydlynydd ADY). Yn ychwanegol, mae swyddogion yn hyrwyddo gweithio effeithiol o ysgol i ysgol i gefnogi pob agwedd ar weithredu diwygio ADY.
- Mae'r awdurdod yn rhannu arfer effeithiol o ran ADY yn rheolaidd ar draws ei awdurdod ei hun ac awdurdodau lleol eraill. Er enghraifft, cyd-gyflwynodd Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Sir Ddinbych a Chonwy i weithwyr iechyd proffesiynol o'r Canolfannau Datblygu Plant ar ADY.
- Mae swyddogion wedi datblygu Dogfen ddefnyddiol ar Egwyddorion a Disgwyliadau sy'n crynhoi disgwyliad yr awdurdod o'r trefniadau cymorth mewn lleoliadau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.
- Mae darpariaeth yr awdurdod ar gyfer gwasanaethau amlasiantaethol ADY cyfrwng Cymraeg yn gryfder. Mae hyn yn cefnogi gwaith amlasiantaethol i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion ag ADY yn dda.
- Mae trefniadau pontio effeithiol ar waith i gefnogi anghenion disgyblion ag ADY. Mae'r awdurdod yn meithrin cysylltiadau a chydweithio agos rhwng sefydliadau addysgol. Mae hyn yn ymestyn trefniadau pontio i leoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir, i ysgolion cynradd ac uwchradd, a phontio ar gyfer llwybrau ôl-16. Hefyd, nod yr awdurdod yw sicrhau bod darpariaeth ddysgu ychwanegol ar waith yn gyson yn ystod y cyfnod pontio.
- Mae gan yr awdurdod ymagwedd bwyllog at ystyried cynlluniau datblygu unigol (CDU) a gynhelir gan ysgolion a'r awdurdod lleol. O ganlyniad, mae Cydlynwyr ADY ac arweinwyr mewn ysgolion yn glir am brosesau'r awdurdod lleol a'r gwahaniaeth rhwng CDU a gynhelir gan ysgolion neu'r awdurdod lleol.

**Ystyriwch**

- gryfhau'r cymorth ar gyfer Cydlynwyr ADY ac arweinwyr i wneud defnydd mwy effeithiol a phwrpasol o blatfform digidol yr ALI.

**Maes ffocws 2: Pa mor effeithiol yw'r awdurdod lleol o ran darparu her effeithiol a chymorth targedig i wella presenoldeb disgyblion**

## Cryfderau

- Yn unol â Chynllun Corfforaethol Sir Ddinbych, rhoddir blaenoriaeth i bresenoldeb, ac mae'n treiddio trwy'r holl gynlluniau meysydd gwasanaeth.
- At ei gilydd, mae prosesau a systemau i fonitro presenoldeb yn briodol. Mae gan swyddogion ffocws clir ar wella presenoldeb, ac yn gyffredinol, mae eu dulliau'n cael effaith addas ar godi lefelau presenoldeb disgyblion yn yr awdurdod lleol.
- Mae swyddogion wedi ymgorffori gwerthoedd a gweledigaeth yr awdurdod lleol o fewn y Strategaeth Ymgysylltu â Disgyblion sy'n anelu at wella presenoldeb ar draws pob ysgol. Nod y strategaeth yw hyrwyddo dulliau cyson a chydweithio effeithiol rhwng gwahanol bartneriaid i gynorthwyo arweinwyr i gynllunio strategaethau a'u rhoi ar waith i wella presenoldeb yn eu hysgolion.
- Mae'r Polisi Presenoldeb wedi cael ei adolygu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a'i fabwysiadu gan ysgolion. Cryfhawyd hyn trwy gynnwys arweiniad i ysgolion ar ddefnydd effeithiol o amserlenni rhan-amser. Mae gwaith y swyddogion cyswllt ac ymgysylltu â theuluoedd yn cefnogi datblygu a gweithredu'r dulliau presenoldeb hyn yn dda.
- Mae'r tîm Lles Addysg ymrwymedig ac ymroddgar yn gweithio'n effeithiol i gynorthwyo ac arwain arweinwyr a staff ysgolion. Maent yn ymgysylltu'n adeiladol â theuluoedd i fynd i'r afael â rhwystrau y gallai eu plentyn eu hwynebu wrth fynychu'r ysgol, a'u datrys.
- Mae'r dull amlasiantaethol ar draws gwasanaethau yn gryfder yn yr awdurdod lleol. Mae'r dull hwn yn mynd i'r afael ag anghenion unigol disgyblion trwy gynlluniau cymorth ymyrraeth teilwredig yn briodol.
- Mae dull pwrpasol o ran Ysgolion Bro yn yr awdurdod lleol. Mae hyn yn dechrau diwallu anghenion y disgyblion mwyaf bregus, eu teuluoedd a'u cymunedau.
- Mae cyfleoedd defnyddiol i arweinwyr rannu arfer effeithiol yn rheolaidd, er enghraifft yn y briff wythnosol gydag uwch swyddogion yr awdurdod, cyfarfodydd clwstwr a chynadleddau i benaethiaid. Mae'r rhyngweithio hwn yn rhoi arweiniad buddiol i ysgolion ar ddulliau i wella presenoldeb.

## Ystyriwch

- pa mor effeithiol y mae swyddogion yn defnyddio ystod o wybodaeth am bresenoldeb ar gyfer grwpiau o ddysgwyr i nodi tueddiadau a thargedu adnoddau a chymorth ar draws ysgolion.
- pa mor gadarn y mae swyddogion yn dwyn arweinwyr ysgolion i gyfrif yn eu defnydd o ddata ar bresenoldeb disgyblion.

Yn gywir

Richard Thomas